Mehefin
2001

Rhif
2

Crynodeb Ymchwil

Crynodeb Ymchwil

Symud y dosbarth!®

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cynnwys

Cefndir	2
Dulliau	4
Canfyddiadau	5
Trafodaeth	7
Cyfeiriadau	10

Cefndir

1.

Mae rhaglen *Symud y dosbarth!*® yn cynnwys nifer o ymarferion ymlacio i'w defnyddio gyda phlant ysgolion cynradd o bob oedran. Mae'r ymarferion hyn, a ddatblygwyd yn yr Iseldiroedd[1], wedi cael eu grwpio yn ôl thema ac oedran ac fe'u rhestrir ar galendr wal misol, sy'n dilyn cynllun datblygu o gam i gam. Nod y rhaglen yw annog plant i wneud gwahanol fathau o ymarfer corff bob dydd. Mae'r canlyniadau dymunol ar gyfer disgyblion yn cynnwys: cynyddu ysgogiad a gwella canolbwyntio; codi ymwybyddiaeth gorfforol a gwella datblygiad synhwyraidd-weithredol, ac atal anafiadau a hunan-ofal.

Ar y cyd â **sports** cotland a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (Adran Hybu Iechyd), comisiynodd Fwrdd Addysg Iechyd yr Alban (HEBS) Gyngor Ymchwil mewn Addysg yr Alban (SCRE) i werthuso cynlluniau peilot rhaglen *Symud y dosbarth!*® mewn ysgolion yng Nghymru a'r Alban[2].

Prif nodau'r gwerthusiad oedd:

- Adolygu natur a chynnwys adnoddau *Symud y dosbarth!*® sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a gyflwynwyd drwy'r rhaglen.

- Adolygu a gwerthuso rhaglen *Symud y dosbarth!*® ar waith mewn tair ysgol yn yr Alban a thair ysgol yng Nghymru;

- Asesu hyfywedd rhaglen *Symud y dosbarth!*® yn y dosbarth;

- Proffwydo'r gallu i ail-greu canlyniadau rhaglen *Symud y dosbarth!*® mewn ysgolion cynradd yng Nghymru a'r Alban.

Dulliau

2.

Astudiaeth ansoddol oedd hi i raddau helaeth oedd yn defnyddio astudiaethau manwl oedd yn cynnwys tair ysgol beilot yng Nghymru a thair yn yr Alban. Dyma'r prif ddulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad:

- Arsylwi ar weithrediad rhaglen *Symud y dosbarth!*® yn y dosbarth;
- Cyfweliadau gyda'r penaethiaid a'r athrawon ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod peilot;
- Cyfweliadau grŵp gyda'r disgyblion;
- Dyddiaduron/cofnodion athrawon;
- Yn ogystal, roedd elfen o'r gwerthusiad yng Nghymru yn cynnwys defnyddio holiaduron i gasglu gwybodaeth oddi wrth yr athrawon hynny oedd yn defnyddio rhaglen *Symud y dosbarth!*® mewn naw ysgol beilot arall nad oeddent yn rhan o'r brif astudiaeth.

Canfyddiadau 3.

Cododd sawl tebygrwydd trawiadol yng nghanfyddiadau'r holl ysgolion oedd yn rhan o'r cynlluniau peilot yng Nghymru a'r Alban. Er enghraifft:

- Mae'r rhaglen yn debygol o fod yn bosibl ei haddasu ar gyfer ysgolion ac ystafelloedd dosbarth yng Nghymru a'r Alban. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod potensial trosglwyddo'r model a ddatblygwyd yn yr Iseldiroedd i'r DU, ac mae'n berthnasol i'r holl grwpiau oedran cynradd.

- Ychydig iawn o hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y rhaglen, o gymryd bod yr adnoddau calendr sylfaenol a'r deunyddiau patrwm ar gael. Ychydig iawn o gymorth ychwanegol sydd ei angen ar yr ysgolion.

- Mae disgyblion ac athrawon o'r farn fod y rhaglen yn arloesol, yn ddiddorol ac yn hwyl.

- Mae yna gonsensws ymysg yr athrawon a'r disgyblion fod y rhaglen yn hyrwyddo canolbwyntio ac ymddygiad yn y dosbarth a'i bod yn cael effaith arwyddocaol wrth helpu'r disgyblion i ymlacio a newid eu ffocws. Gall rhai gweithgareddau fod yn ymestynnol i'r athrawon wrth gyffroi'r disgyblion, ond mae'r mwyafrif o athrawon yn gallu ymdopi â hyn.

- Mae'r rhaglen yn cyfrannu at ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cyrff, materion iechyd, a pherthnasoedd rhwng athrawon a disgyblion.

- Mae cefnogaeth y pennaeth a/neu'r uwch-reolwr yn ffactor hanfodol i hyder y staff sy'n defnyddio'r rhaglen er mwyn gwireddu potensial y rhaglen yn llawn.

- Gellir cymhwyso rhaglen *Symud y dosbarth!*® i agweddau ar y cwricwlwm ehangach ac mae'n cyd-fynd â mentrau a fframweithiau hybu iechyd eraill (er enghraifft *Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru* a *The Active School* yn yr Alban).

- Mae gwybodaeth y rhieni am y rhaglen yn gyfyngedig ond yn gyffredinol maent yn gefnogol os nad yw'n amharu ar 'addysg' eu plant.

- Mae llawer o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar weithrediad effeithiol y rhaglen yn debyg i'r rhai ar gyfer mentrau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys: y cwricwlwm a'r amserlen ehangach; materion ymarferol megis y lle sydd ar gael ac amgylchedd y dosbarth; cefnogaeth yr ymgynghorwyr a'r uwch-reolwyr perthnasol;parodrwydd y pennaeth ac athrawon eraill i gyfrannu at y rhaglen.

Trafodaeth

4.

Er bod y gwerthusiad yn nodi bod *Symud y dosbarth!*® yn berthnasol, yn ddefnyddiol ac yn bosibl ei chyflwyno mewn ysgolion yng Nghymru a'r Alban,mae nifer o oblygiadau o ran defnydd ehangach y rhaglen yn deillio o'r astudiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd rhaglen *Symud y dosbarth!*® mewn dosbarthiadau sy'n wynebu galwadau trwm o du rhannau eraill o'r cwricwlwm. Gallai cynllunio, polisïau a strategaethau athrawon ar sail yr ysgol gyfan ddatrys y broblem a sicrhau nad yw'r rhaglen yn cael ei 'wthio allan' gan y cwricwlwm.

- Er bod yr athrawon yn pwysleisio nad yw'r rhaglen yn gofyn am hyfforddiant dwys, maent yn gwerthfawrogi cymorth parhaus, cyngor a syniadau gan gydweithwyr gan gynnwys penaethiaid a staff ymgynghorol.

- Mae hyder yr athrawon a'u dealltwriaeth am yr egwyddorion sy'n sail i'r rhaglen yn ffactorau pwysig.

- Mae rhaglen *Symud y dosbarth!*® yn cydategu mentrau iechyd eraill megis *Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru* a phynciau cwricwlaidd gan gynnwys drama, addysg gorfforol,bioleg, gwyddoniaeth ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae yna botensial i ddatblygu'r cysylltiadau ymhellach, gan helpu i hyrwyddo defnydd fwy sefydlog ar

raglen *Symud y dosbarth!*® er lles mentrau cysylltiedig, a'r cwricwlwm ehangach.

- Bu cyfnod cynllun peilot *Symud y dosbarth!*® yng Nghymru a'r Alban yn rhy fyr i asesu a yw'n effeithio ar berfformiad academaidd.Yn y tymor hwy, bydd hyn yn bwnc pwysig a fydd yn gofyn am astudiaeth bellach.

- Mae'r gwerthusiad hwn wedi bod yn gyfyngedig i nifer fechan o ysgolion gyda chyfanswm o 52 dosbarth,44 yng Nghymru ac wyth yn yr Alban. Er bod hynny'n ddigonol ar gyfer astudiaeth hyfywedd, buasai'n gall archwilio a oes angen cywreinio pellach ai peidio os caiff y rhaglen ei mabwysiadu ar raddfa ehangach.

- Ychydig iawn o blant ag anghenion addysgol arbennig cydnabyddedig clir oedd yn rhan o'r cynllun peilot, ond roedd eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i gymryd rhan yn awgrymu y dylid adolygu'r rhaglen am ei gynaliadwyedd mewn ysgolion arbennig ac ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion addysgol arbennig yn ysgolion y brif ffrwd.

I grynhoi, mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod gan raglen *Symud y dosbarth!* ® y potensial i hyrwyddo canolbwyntio ac ymwybyddiaeth o'r corff ymysg y disgyblion. Bydd astudiaethau tymor-hir yn fwy addas i asesu graddfa'r rhain ac

effeithiau eraill ond mae'r canfyddiadau yn awgrymu y gellid gweithredu'r rhaglen ar raddfa ehangach. Gellir edrych ar raglen *Symud y dosbarth!*® fel ffordd o gynyddu nifer o ymagweddau amrywiol sy'n ceisio hyrwyddo gweithgarwch corfforol ymysg pobl ifanc, a hwyluso manteision corfforol, gwybyddol ac emosiynol. Mae gan fanteision o'r fath y potensial i wneud cyfraniad cadarnhaol at hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol. Er hynny, dylid cydnabod y gall amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys integreiddiad o fewn fframwaith hybu iechyd, cynllunio priodol, datblygu staff, amser ac adnoddau ddylanwadu ar y manteision posibl.Yn olaf, un gydran o gwricwlwm prysur fydd rhaglenni o'r fath.

Cyfeiriadau

5.

1. Sijthoff E., Kooyman L. (1999) *Concept Manual for the International Project: The Class Moves!* Fysio Educatief. Amsterdam.

2. Lowden K, Powney J, Davidson J and James C. (2001) *The Class Moves!® Pilot in Scotland and Wales. An Evaluation. SCRE Research Report No. 100.* Cyngor Ymchwil mewn Addysg yr Alban. Caeredin.

Gellir cael copi o'r adroddiad llawn y seilwyd y Crynodeb Ymchwil hwn arno, ac y cyfeirir ato uchod, oddi wrth SCRE, 15 St John Street, Caeredin, EH8 8JR.
Ffôn:0131 557 2944, Ffacs: 0131 556 9454, http://www.scre.ac.uk.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Cangen Ymchwil a Gwerthuso
Adran Hybu Iechyd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3574 Ffacs: 029 2082 5779
www.hpw.wales.gov.uk

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cymorth ariannol gan y Comisiwn Ewropeaidd.